**<u>CYNIGION GOFAL PRESWYL – Cwestiynau Cyffredin</u>**

**Beth yw'r trefniadau presennol ar gyfer gofal preswyl yn Rhondda Cynon Taf?**
Ar hyn o bryd mae 30 o gartrefi gofal i bobl hŷn yn Rhondda Cynon Taf, gan gynnig cyfanswm o 1,224 o welyau. O'r rhain, mae'r Cyngor yn gweithredu 7 cartref gofal preswyl sy'n cynnig 237 o welyau preswyl cofrestredig. Mae'r 23 cartref gofal sy'n weddill yn cael eu darparu gan ddarparwyr annibynnol dan gontract gan y Cyngor, gan gynnig 989 o welyau preswyl a nyrsio cofrestredig Yn ogystal â'r uchod, mae hefyd 3 chyfleuster gofal ychwanegol yn gweithredu ar hyn o bryd yn RhCT sy'n darparu 140 o unedau llety. Mae cyfleusterau gofal ychwanegol y dyfodol yn mynd rhagddyn nhw'n dda ar hyn o bryd yn Dan-y-Mynydd (Porth), sydd i fod i agor yn ystod 2025/26, ac Aberpennar, sydd i fod i agor yn ystod gaeaf 2027. Yn ogystal â hynny, mae datblygiad newydd wedi'i gynllunio yn Nhreorci a fydd yn darparu llety arall gyda gofal i bobl hŷn unwaith y bydd safle addas ar gael.

**Pa gartrefi sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor sy'n darparu cymorth penodol ar gyfer dementia?**
Mae Cartref Gofal Preswyl Tegfan yn Aberdâr yn y broses o drosglwyddo i gartref preswyl dementia yn unig, i ddarparu 46 o welyau. Mae Cartref Gofal Parc Newydd yn Nhonysguboriau hefyd yn gartref i uned 10 gwely sy'n addas ar gyfer gofal dementia preswyl, ar ôl i waith diweddar gael ei gwblhau. Bydd cynigion y cytunwyd arnyn nhw'n ddiweddar gan y Cabinet yn sicrhau y bydd y llety gofal newydd ar hen safle Ffatri 'Chubb' yng Nglynrhedynog yn cael ei neilltuo ar gyfer gofal dementia, gan greu 32 gwely. Yn y cyfamser, mae'r llety gofal newydd yn Heol Darran, Aberpennar wedi derbyn caniatâd cynllunio yn ddiweddar a bydd yn darparu 15 o welyau gofal dementia.

**Pa newidiadau i wasanaethau sy'n destun ymgynghoriadau?**
Yn eu cyfarfod ar 19 Medi 2024, cytunodd y Cabinet i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â chynigion i newid y ddarpariaeth gofal preswyl bresennol yng Nglynrhedynog a'r Ddraenen Wen, er mwyn alinio'n well â'r galw presennol am ofal preswyl. Mae hefyd yn rhan o raglen fuddsoddi sylweddol barhaus i foderneiddio gofal preswyl yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r ddau Gwestiwn Cyffredin canlynol yn amlinellu'r cynigion ar gyfer Glynrhedynog a'r Ddraenen Wen yn fanylach.

**Beth yw'r cynigion ar gyfer Glynrhedynog?**
Cynigir datgomisiynu Cartref Gofal Ferndale House yn barhaol, gan nad yw'n bodloni'r safonau modern sy'n ofynnol i ddarparu llety gofal parhaus o safon uchel. Mae nifer fach o breswylwyr wedi aros yn y cartref dros gyfnod hir ac o ganlyniad dydy'r cartref ddim yn gynaliadwy o safbwynt ariannol mwyach. Dim ond ar ôl dod o hyd i lety arall addas ar gyfer preswylwyr y cartref gofal y byddai'r newid yn dod i rym. Mae hefyd yn digwydd ochr yn ochr â buddsoddiad y cytunwyd arno mewn llety gofal newydd sbon wedi'i neilltuo ar gyfer dementia, sydd wedi'i glustnodi ar gyfer safle ffatri 'Chubb' yng Nglynrhedynog. Byddai pob preswylydd sy'n byw yn Ferndale House yn cael cyfle i symud yn ôl i'r cyfleuster gofal newydd sbon yn ardal Glynrhedynog wedi iddo agor, gan ddibynnu ar eu hanghenion sydd wedi'u hasesu a'u dymuniadau bryd hynny.

**Beth yw'r cynigion ar gyfer y Ddraenen-wen?**
Cynigir datgomisiynu Cartref Gofal Cae Glas yn y Ddraenen Wen yn barhaol, gan nad yw wedi cyrraedd ei gapasiti llawn ac nid yw'n gweithredu mewn ffordd ariannol gynaliadwy. Byddai'r newidiadau yma'n dod i rym unwaith y byddwn ni'n dod o hyd i lety arall addas ar gyfer y trigolion presennol.

**Beth mae datgomisiynu yn ei olygu?**
Yn yr achos yma, mae datgomisiynu yn cyfeirio at y broses strwythuredig ffurfiol o gau cartref gofal preswyl yn barhaol i gwrdd â'r anghenion newidiol y Fwrdeistref Sirol a gwella effeithlonrwydd darpariaeth gwasanaeth gofal yn y dyfodol, a ddarperir gan y Cyngor.

**A oes digon o le mewn mannau eraill i ymdopi â cholli gwelyau yn rhan o'r cynnig?**
Ar 9 Awst 2024, roedd cartrefi gofal preswyl y Cyngor yn cynnwys 156 o welyau a feddiannwyd yn barhaol allan o gyfanswm o 237 o welyau a oedd ar gael, sy'n cynrychioli deiliadaeth barhaol gyfredol o 65.8%. Mae hyn yn golygu bod mwy na thraean o'r gwelyau sydd ar gael ar hyn o bryd yn wag. Rhagwelir y bydd y capasiti dros ben yma'n cynyddu hyd yn oed ymhellach pan fydd y datblygiadau gofal ychwanegol arfaethedig yn dod ar gael fel dewis arall o lety gyda gofal i bobl.-Pe bai'r Cabinet yn cytuno ar y newidiadau arfaethedig, byddai digon o gapasiti cyffredinol ar gael o hyd, ac yn ogystal â'r datblygiadau gofal ychwanegol arfaethedig, mae digon o ddarpariaeth gofal preswyl i fodloni'r galw presennol ac yn y dyfodol.

**Beth os bydd cynnydd yn y galw am dderbyniadau newydd?**
Yn rhan o'r cynigion sydd wrthi'n cael eu trafod, argymellir bod y Cyngor yn cyfyngu ar dderbyn preswylwyr i'r cartrefi gofal, oni bai bod amgylchiadau eithriadol lle nad oes lleoliad arall ar gael i fodloni'r angen sydd wedi'i asesu. Mae hyn er mwyn lleihau unrhyw effaith bosibl ar drigolion hyd nes y gwneir penderfyniad terfynol ar y cynigion.

**Beth am les preswylwyr cartrefi gofal?**
Pe bai'r Cabinet yn cytuno ar y cynnig yn dilyn ymgynghoriad, lles y trigolion fyddai'r brif ystyriaeth bob amser pe bai unrhyw gartref yn cael ei ddatgomisiynu. Byddai'r broses yma'n cael ei chynllunio a'i rheoli'n ofalus dros gyfnod o amser, ac yn unol â chanllawiau arfer gorau cenedlaethol. Byddai pob preswylydd yn cael cynnig trefniadau gofal a chymorth sensitif i'w helpu i drosglwyddo'n ddiogel i gartref gofal arall o ddewis a fyddai'n diwallu eu hanghenion. Byddai preswylwyr, teuluoedd, ffrindiau, eiriolwyr a staff o'r cartref gofal yn cael eu cynnwys yn y broses. Bydd y preswylydd a'r teulu yn cael eu cefnogi gan Ymarferydd Gofal Cymdeithasol a fydd yn asesu anghenion unigol ac yn trafod yr hyn sy'n well gyda nhw, ac yn helpu i ddewis gwasanaeth amgen priodol. Byddai hyn yn ystyried materion penodol fel cyfeillgarwch hirsefydlog a pharhad gofal.

**Pam mae'r Cyngor yn ystyried y newidiadau yma?**
Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r rhai sydd ei angen, ac i foderneiddio'r llety lleol trwy gynnig opsiynau gofal. Mae hefyd yn ymateb i'r gostyngiad yn y galw am 'gartrefi gofal' traddodiadol a'r cynnydd ym mhoblogrwydd gofal seibiant, gofal cymhleth a byw'n annibynnol gyda chymorth. Adlewyrchir hyn yn y ffaith bod mwy na thraean o'r gwelyau sydd ar gael yng nghartrefi gofal y Cyngor yn wag ar hyn o bryd. Rhaid sicrhau nad yw'r sefyllfa yma'n parhau na'n gwaethygu. Mae nifer isel o breswylwyr wedi bod gan Ferndale House dros gyfnod hir ac felly nid yw'n gynaliadwy yn ariannol mwyach, tra nad yw Cartref Gofal Cae Glas wedi cyrraedd ei gapasiti llawn ac nid yw'n gweithredu mewn ffordd ariannol gynaliadwy. Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i sicrhau bod ei wasanaethau gofal i oedolion yn ddigonol, o ansawdd da ac yn gynaliadwy. O ganlyniad i hyn, rhaid i ni barhau i adolygu'r ddarpariaeth yn barhaus er mwyn sicrhau bod y gofal a'r cymorth rydyn ni'n eu darparu yn parhau i fodloni anghenion pobl hŷn, a hynny wrth ymateb i newid yn y galw a heriau ariannol sylweddol yn y sector cyhoeddus.

**Os cytunir ar y cynigion yn dilyn ymgynghoriad, pryd fyddai unrhyw newidiadau yn dod i rym?**
Yn dilyn cymeradwyaeth yn ystod cyfarfod y Cabinet ddydd Iau 19 Medi, mae'r cynigion bellach yn destun ymgynghoriad – a fydd yn cael ei gynnal o 1 Hydref i 30 Tachwedd 2024. Yna bydd yr adborth a dderbynnir yn cael ei goladu gan swyddogion, a bydd y Cabinet yn cyfarfod yn y dyfodol i wneud unrhyw benderfyniad terfynol. Bydd amserlenni yn cael eu gosod yn rhan o'r broses yma.

**Ai bwriad y cynllun yma yw lleihau costau?**
Er y gallai’r cynigion gynhyrchu arbediad refeniw amcangyfrifedig o tua £2 filiwn mewn blwyddyn lawn, mae ymrwymiad y Cyngor i foderneiddio opsiynau gofal preswyl i bobl hŷn wedi arwain at fuddsoddiad llawer mwy mewn cyfleusterau newydd ar draws cymunedau lleol – gan adlewyrchu’r galw am ofal seibiant, gofal cymhleth a byw'n annibynnol gyda chymorth. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau tai Gofal Ychwanegol poblogaidd sy’n cael eu darparu yn Aberaman (Maesyffynnon) a’r Graig (Cwrt yr Orsaf) yn y blynyddoedd diwethaf, ynghyd â chartref arall sy’n cael ei adeiladu ar hyn o bryd yn y Porth. Yn ogystal á hyn, cytunwyd ar fuddsoddiad gwerth miliynau o bunnoedd i ddarparu rhagor o welyau gofal ychwanegol a dementia preswyl yng Nglynrhedynog ac Aberpennar, llety newydd wedi’i neilltuo ar gyfer pobl ag anableddau dysgu pan fyddan nhw'n oedolion ym Mhentre’r Eglwys, a chynllun Gofal Ychwanegol a gofal dementia preswyl yn Nhreorci yn y dyfodol.

**Pam na allwn ni gadw pob un o'n cartrefi gofal cyfredol?**
Mae'r cynnig preswyl mewnol cyfredol yn seiliedig ar fodel gofal traddodiadol, ac mae llawer o'r ystâd yn dangos ei oedran. Mae hyn yn cynnwys cyflwr yr adeiladau a'u dyluniad a'u pwrpas sylfaenol. Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i drafod ei fodel cyfredol, gan adlewyrchu ar anghenion a dyheadau'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol, sydd â disgwyliadau sy'n newid yn gyson. Mae yna hefyd heriau ariannol dybryd i'r Cyngor ac yn y cyd-destun yma mae Swyddogion wedi ystyried y tan feddiannaeth ar draws eu gwasanaethau gofal preswyl mewnol arfaethedig ac wedi cynnig cau’r ddau gartref gofal.

**Sut ydych chi'n mynd i reoli trosglwyddo’r holl breswylwyr os cytunir ar y cynnig?**
Byddai pob preswylydd yn cael ei gefnogi'n llawn trwy gydol y broses yma. Byddai aseswyr penodedig y Cyngor yn sicrhau bod asesiadau ac adolygiadau ar gyfer pob preswylydd yn gyfredol neu'n cael eu hadnewyddu ac yn trafod yr opsiynau llety amgen sydd ar gael i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Wrth gynnal yr asesiadau, byddai'r asesydd pwrpasol yn gweithio'n agos gyda phob unigolyn a'u teuluoedd. Byddai eiriolwyr a gweithwyr cymorth wrth law i gefnogi'r preswylwyr a'u teuluoedd trwy'r cyfnod o newid.

**A fyddai preswylwyr yn cael eu symud i rywle lleol, pe bai eu cartref yn cau?**
Pe bai'r Cabinet yn cytuno i ddatgomisiynu unrhyw gartrefi yn dilyn ymgynghoriad, byddai lleoli trigolion yn lleol yn ystyriaeth bwysig, a bydden ni'n edrych i gael cydbwysedd rhwng darparu darpariaeth amgen o'r ansawdd cywir a daearyddiaeth. Bydden ni'n gweithio ochr yn ochr â phreswylwyr unigol, teuluoedd, cynhalwyr ac eiriolwyr er mwyn rhoi'r gofal amgen mwyaf addas i'w hanghenion ar waith yn y dyfodol.

**A fydd barn trigolion yn cael ei hystyried, mewn perthynas â lle y cânt eu symud?**
Bydd eiriolwyr annibynnol a gweithwyr cymorth wrth law i sicrhau bod dymuniadau a barn eich perthynas yn hollbwysig mewn unrhyw ddewisiadau sy'n cael eu cyflwyno i bob unigolyn. Byddai hyn yn ystyried materion penodol fel cyfeillgarwch hirsefydlog. Byddai ystyriaeth a chefnogaeth hefyd yn cael ei roi i unigolion sy'n symud i gartref gofal arall o'u dewis.

**Sut bydd manylion y pontio arfaethedig yn cael eu cyfleu i ddefnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd, a staff cartrefi gofal, os bydd y Cabinet yn cytuno ar y cynigion yn dilyn ymgynghoriad?**
Yn sicr, bydd y Cyngor yn gweithio'n agos iawn gyda staff, undebau llafur, cynhalwyr, preswylwyr cartrefi gofal a'u teuluoedd, ac eiriolwyr, trwy gydol y broses yma - o'r ymgynghoriad cyfredol hyd at unrhyw newidiadau posibl yn y dyfodol.

**Beth fyddai'n digwydd i staff pe bai unrhyw gartref yn cau?**
Os bydd unrhyw benderfyniad yn effeithio ar staff, byddai'r Cyngor yn ymgynghori â'r staff ar wahân lle bydd gweithdrefn Rheoli Newid y Cyngor yn cael ei dilyn. Byddai adran Adnoddau

Dynol y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth a'r Undebau Llafur os bydd unrhyw oblygiadau i staff yn deillio o'r cynigion yma. Byddai cynllun ymgysylltu a chyfathrebu yn cael ei gyflwyno i staff er mwyn sicrhau mynediad da at wybodaeth a chyngor ynghylch eu hawliau, eu hopsiynau, ac amserlenni disgwyliedig digwyddiadau allweddol.

**Beth yw eich cynlluniau ar gyfer adeiladau'r cartrefi gofal sydd wedi'u cynnig ar gyfer eu datgomisiynu?**
Does dim gan y Cyngor unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer y ddau safle cartref gofal y bwriedir eu datgomisiynu'n barhaol (Cartref Gofal Ferndale House a Chartref Gofal Cae Glas) gan nad oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud eto ynglŷn â'u dyfodol.

**Pam nad yw'r Cyngor yn cynnig cadw Ferndale House ar agor nes bod y cyfleuster gofal dementia newydd yng Nglynrhedynog yn barod?**
Oherwydd ei gynllun a'i oedran, dydy amgylchedd  Ferndale House ddim yn galluogi preswylwyr i gael y lefel a'r ansawdd gorau posibl o lety y bydden ni'n ei ddymuno. Mae'r ffactorau yma'n debygol o fod wedi cyfrannu at y nifer isel o breswylwyr am gyfnod hir, a'r cartref ddim yn gweithredu mewn ffordd ariannol gynaliadwy. Mae hyn yn debygol o barhau hyd yn oed ymhellach i'r dyfodol. Felly, mae trosglwyddo preswylwyr yn gynnar o Ferndale House yn ystod y cyfnod yma'n sicrhau bod preswylwyr mewn llety addas tra bod y llety dementia pwrpasol newydd sbon ar gyfer Glynrhedynog yn cael ei adeiladu. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, rhoddir ystyriaeth i unrhyw deithiau estynedig y gallai teuluoedd preswylwyr presennol Ferndale House eu hysgwyddo o ganlyniad i'r penderfyniad i ddatgomisiynu'r cartref cyn bod y cartref gofal newydd ar gael.

**Ydy'r penderfyniad wedi cael ei wneud yn barod?**
Dydy'r Cyngor ddim wedi penderfynu ar yr opsiwn a ffefrir sydd wedi'i gynnig i'w ystyried. Cytunodd Aelodau'r Cabinet i gychwyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion yn eu cyfarfod ar 19 Medi, ac felly bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal rhwng 1 Hydref a 30 Tachwedd 2024. Bydd y broses yma'n un helaeth sy'n ymgysylltu â staff, gofalwyr, preswylwyr cartrefi gofal, eu teuluoedd, ac eiriolwyr, ynghyd â'r cyhoedd yn gyffredinol. Bydd yr adborth sy'n cael ei dderbyn yn ystod y broses yma yn cael ei ystyried yn fanwl iawn cyn i'r Cabinet wneud unrhyw benderfyniad terfynol yn y dyfodol.

**Sut ydw i'n cael rhoi fy marn yn yr ymgynghoriad?**
Yn dilyn penderfyniad y Cabinet i gychwyn ymgynghoriad ar y cynnig yma, cynhelir cyfnod ymgynghori ffurfiol o wyth wythnos rhwng 1 Hydref a 30 Tachwedd 2024. Yn rhan o hyn, cynhelir ymarfer ymgynghori unigol ac annibynnol ar y ddau gartref yr effeithir arnyn nhw o dan y cynigion. Bydd preswylwyr unigol a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi i ddeall ac ymgysylltu â'r broses ymgynghori a'r goblygiadau posibl iddyn nhw. Bydd ymgynghoriadau wyneb yn wyneb yn cael eu trefnu a bydd pecyn gwybodaeth yn cael ei ddosbarthu i drigolion er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno mewn fformat hygyrch a chlir.

Yn ogystal â hyn, byddwn ni'n ymgysylltu â staff pob cartref sy'n cael eu heffeithio, lle byddan nhw'n cael eu hannog i rannu eu barn ar y cynigion.

Bydd nifer o gyfarfodydd cyhoeddus hefyd yn cael eu trefnu ar draws lleoliadau amrywiol i annog trigolion ehangach Rhondda Cynon Taf i ddweud eu dweud. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys holiadur cyhoeddus ar-lein ar wefan y Cyngor: https://www.rctcbc.gov.uk/YmgynghoriadauPresennol. Am ragor o fanylion, ewch i https://www.rctcbc.gov.uk/ymgynghori.

**Beth yw'r weithdrefn - beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus (a fydd yn dod i ben ar 30 Tachwedd 2024), bydd adroddiad yn cael ei ddrafftio gan Swyddogion yn amlinellu'r adborth sydd wedi dod i law. Bydd y Cabinet yn ystyried yr adborth yn drylwyr cyn gwneud unrhyw benderfyniad.